# Cymorth Prosiectau

Cymorth dewisol i berchnogion preswyl a landlordiau sy'n derbyn naill ai grant neu fenthyciad gan y Cyngor.

## BETH SYDD AR GAEL?

**Cefnogaeth dewisol dechnegol mewn perthynas ag atgyweirio ac adnewyddu eiddo perthnasol.**

Darperir y gefnogaeth dechnegol yn uniongyrchol gan y Cyngor ac fe fydd y ffioedd yn cael eu seilio ar gostau canran y gwaith cymwys

- Bydd y swyddog grantiau yn ymweld â'ch eiddo ac yn nodi meysydd sydd angen gwaith.
- Gwasanaethau technegol sydd ar gael ar gyfer gwaith a nodwyd ar gyfer y gwaith canlynol: gwaith tô a simnai; rendro; gwaith trydanol, plymio/gwresogi; DPC/trin pren/tancio.
- Bydd y swyddog grantiau yn arfarnu unrhyw ddyfynbrisiau dilynol a gyflwynir ar gyfer gwaith angenrheidiol a fydd yn cynnwys costau cael y tystysgrifau diogelwch nwy amrywiol, tystysgrifau trydanol, ffioedd rheoliadau adeiladu ac ati, a dylai'r contractwyr perthnasol ddarparu'r dogfennau hyn i chi ar ddiwedd y gwaith.
- Arolwg Arbenigol – Trefnu Arolwg Asbestos a chyflwr tamprwydd pren
- CDM 2015 – Darparu templed Iechyd a Diogelwch a Chynllun Diogelwch at ddefnydd y contractwyr

**Daw'r cymorth yma i ben unwaith fo'r gwaith wedi ei gwblhau.**

www.gwynedd.llyw.cymru

## STATWS A'R GRŴP TARGED

- Mae'r math hwn o gymorth yn un DEWISOL.
- Nid oes hawl awtomatig i dderbyn y taliad uchaf neu unrhyw daliad.

## CYMHWYSEDD

- Ar gael trwy wahoddiad yn unig
- Ar gael i berchnogion preswyl sydd yn derbyn grant eiddo gwag neu fenthyciad eiddo gwag gan Gyngor Gwynedd, o dan y Polisi Tai **Sector P**reifat 2018.

## AMODAU

- Os yw'r ymgeisydd yn tynnu'n ôl o 'r GRhP yna bydd yn gyfrifol am unrhyw gostau a achosir gan y Cyngor cyn iddynt dynnu'n ôl.

## CYSYLLTWCH A NI


Tai Sector Preifat
Cyngor Gwynedd Council
Cae Penarlag
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2YB

01341 424 351 / 01341 424 371

tai@gwynedd.llyw.cymru


CYNGOR GWYNEDD COUNCIL